OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3910 (Cy.322)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *4 Rhagfyr 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 4, 5 a 6 o Atodlen 8 iddi, sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**3**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** Ynglyn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2002, diwygir Atodlenni 1, 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn: —

(a) ym mharagraff 3(1)(b) o Atodlen 1, yn lle "75 per cent" rhoddir "90 per cent";

(b) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2, yn lle "1.004" rhoddir "0.995"; ac

(c) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.
(**3**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47) a 2000/3382 (Cy. 220).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*John Marek*
4 Rhagfyr 2001 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38

ATODLEN Rheoliad 2

"SCHEDULE 4 Regulation 6

## ADULT POPULATION FIGURES

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,438 |
| Bridgend | 101,462 |
| Caerphilly | 128,738 |
| Carmarthenshire | 133,164 |
| Cardiff | 251,733 |
| Ceredigion | 58,082 |
| Conwy | 89,317 |
| Denbighshire | 71,214 |
| Flintshire | 114,556 |
| Gwynedd | 91,623 |
| Isle of Anglesey | 50,068 |
| Merthyr Tydfil | 41,805 |
| Monmouthshire | 68,197 |
| Neath Port Talbot | 106,999 |
| Newport | 104,507 |
| Pembrokeshire | 88,716 |
| Powys | 99,692 |
| Rhondda Cynon Taff | 184,119 |
| Swansea | 180,714 |
| Torfaen | 68,089 |
| Vale of Glamorgan (The) | 93,719 |
| Wrexham | 97,374" |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhwysir rheolau i gyfrifo'r symiau hynny yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau hynny drwy roi canran newydd ym mharagraff 3(1)(b) o Atodlen 1 (didyniadau o'r swm gros), lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (rhagdybiaethau ynglyn â'r swm gros) ac Atodlen 4 newydd (ffigurau poblogaeth oedolion).